

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



Enw'r Polisi: **Diogelu Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n Agored i Niwed**  
Cod y Ddogfen (os yn berthnasol)

**Adran:** Taith y Dysgwr

**Awdur y Ddogfen:** Joe Baldwin

**Teitl Swydd:** Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Taith y Dysgwr

**Dyddiad Cymeradwyo:** Chwefror 2022

**Dyddiad Adolygu:** Chwefror 2023

### 1. Pwrpas ac Amcanion:

Mae Coleg Penybont yn gwbl ymrwymedig i les myfyrwyr, staff, ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Coleg yn weithredol yn hyrwyddo lles y staff a myfyrwyr i gyd, gan gynnwys oedolion sy'n agored i niwed a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'n disgwyl bob aelod staff, gwirfoddolwr a phartner, gan gynnwys cyflogwyr cysylltiedig a darparwyr lleoliadau gwaith, gefnogi ac arddangos yr ymrwymiad hwn bob amser.

Mae Coleg Penybont yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros ddatblygu myfyrwyr mewn ffyrdd a fydd yn meithrin diogelwch, hyder ac annibyniaeth, gan alluogi myfyrwyr i fod yn bopeth y gallant fod. Rydym yn cydnabod bod coleg ac amgylchedd gwaith sy'n saff ac yn ddiogel yn hollbwysig ar gyfer lles pob myfyriwr, ac mae Cod Dinasyddiaeth y Coleg yn ganolog i alluogi hyn, gan nodi tri disgwyliad o ran ymddygiad:

- Bod yn Barod
- Bod yn Barchus
- Bod yn Ddiogel

Mae pawb sy'n gweithio yn neu i Goleg Penybont yn rhannu nod cyffredin, sef helpu cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel trwy gyfrannu at:

- ddarparu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc ddysgu a datblygu
- nodi'r plant a'r bobl ifanc sydd yn dioddef neu sy'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, a chymryd camau priodol gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel.

Rydym am alluogi pob aelod staff a gwirfoddolwr i ddilyn 4 egwyddor allweddol:

1. Adnabod (arwyddion a symptomau)
2. Ymateb
3. Adrodd
4. Cofnodi

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â chyfrifoldebau statudol y Coleg o ran amddiffyn plant, diogelu pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed, a dyletswyddau o dan y ddyletswydd 'Prevent'.

Ystyr diogelu yw atal ac amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac addysgu pobl o'u cwrpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon (Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2021).

Tra bod cyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn berthnasol i bobl ifanc (plant) dan 18 oed, mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ymestyn y ddyletswydd i adrodd pan fod gan y Coleg rheswm rhesymol i amau bod oedolyn mewn perygl.

## 2. Manylion y Polisi:

Nodir yr amcanion allweddol sy'n ymwneud â'r polisi hwn mewn deddfwriaeth diogelu, sy'n cynnwys: Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion 2010, dogfen Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel rhif 275/2021 (sy'n cymryd lle dogfen rhif 272/2021, Deddf Llesiant Cenhedloedd y Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Chanllawiau Dyletswydd Prevent 2015.

Bydd y Coleg yn cydweddu ei ganllawiau a'i weithdrefnau â Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a'r Weithdrefn Diogelu Cymru.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ychwanegol i'w gweld yn atodiad 1. Bydd y dogfennau hyn, ynghyd â'r polisi hwn, yn galluogi'r Coleg i gydymffurfio â gofynion cyrff statudol yn gynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a DfES.

## 3. Cyfrifoldebau (os yn berthnasol):

**Mae'r Corff Llywodraethol wedi ymrwymo i sicrhau bod y Coleg yn:**

- Codi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â diogelu a hybu lles plant a phobl ifanc yn y Coleg.
- Darparu amgylchedd diogel i blant a phobl ifanc.
- Nodi plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, a chymryd camau priodol er mwyn sicrhau bod y plant a phobl ifanc hynny yn cael eu cadw'n ddiogel yn y Coleg.
- Defnyddio gweithdrefn ar gyfer adrodd ac ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau staff, dysgwyr eraill a gwirfoddolwyr.
- Gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel.
- Enwi aelod staff sydd ag awdurdod digonol i gymryd cyfrifoldeb arweiniol dros amddiffyn plant, diogelu a'r ddyletswydd Prevent.

- Gwella unrhyw ddiffygion neu wendidau o ran trefniadau diogelu sy'n cael eu dwyn i sylw'r Corff Llywodraethol.

Bydd y Corff Llywodraethu yn adolygu ac yn cymeradwyo Polisi a Gweithdrefn y Coleg yn flynyddol.

Dylai'r Corff Llywodraethu ymgymryd â hyfforddiant diogelu yn ystod y tymor cyntaf ar ôl iddynt gychwyn yn y rôl.

### **Llywodraethwr Dynodedig sydd â chyfrifoldeb dros Ddiogelu**

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig yn gyfrifol am gysylltu â'r Pennaeth a'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) i sicrhau:

- Bod polisi'r Coleg yn bodloni gofynion y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol;
- Bod y Corff Llywodraethu'n adolygu'r polisi bob blwyddyn; a
- Rhoddir gwybod i'r Corff Llywodraethol am sut y mae'r Coleg a'i staff wedi cydymffurfio â'r polisi (*gan gynnwys hyfforddiant a ymgymeryd ag ef*).

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig hefyd yn gyfrifol am oruchwylio cyswllt ag asiantaethau priodol mewn ynghylch honiadau yn erbyn y Pennaeth. Ni fydd hyn yn cynnwys cynnal ymchwiliad ffurfiol ond bydd yn sicrhau bod pleidiau yn cyfathrebu â'i gilydd ac yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo ymholiadau.

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig yn derbyn hyfforddiant priodol er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

### **Pennaeth**

Rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod pob aelod staff yn:

- Dilyn y polisi a'r gweithdrefnau diogelu
- Cael mynediad at yr adnoddau sydd eu hangen i gadw pobl ifanc yn ddiogel (gan gynnwys mynediad at hyfforddiant)
- Gwybod sut i roi gwybod am bryder ac yn gwybod pwy yw UDD y Coleg a sut i gysylltu ag ef/hi.

### Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD)

Rhaid i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) sy'n gyfrifol am ddiogelu, amddiffyn plant a Prevent yng Ngholeg Penybont wneud y canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod staff a gwirfoddolwr yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ynghylch adnabod, ymateb ac adrodd ar bryderon, o leiaf bob dwy flynedd.
- Gweithio fel pwynt cyswllt uniongyrchol ar gyfer asiantaethau allanol, gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg) a'r Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth lleol.
- Cymryd rhan pan fydd Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth ar waith ar gyfer person ifanc.
- Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Corff Llywodraethu sy'n adolygu sut mae'r dyletswyddau wedi'u cyflawni, gan gynnwys hyfforddiant staff ac unrhyw argymhellion.
- Gweithio fel pwynt cyswllt uniongyrchol ar gyfer Prevent ac adrodd i Uned Eithafiaeth a Gwrth-Derfysgaeth Cymru ynghylch unrhyw bryderon.

### Unigolyn Uwch sydd â chyfrifoldeb dros Staff

Bydd y Cyfarwyddwr Pobl yn:

- Sicrhau bod y broses recriwtio staff (parhaol a dros dro) a gwirfoddolwyr yn dilyn y canllawiau recriwtio diogel, gan gynnwys defnyddio gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a Chyngor y Gweithlu Addysg.
- Cydweithio â'r UDD i sicrhau bod pob aelod staff a gwirfoddolwr yn derbyn hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ynghylch adnabod, ymateb ac adrodd ar bryderon, a bod cofnod o hyfforddiant yn cael ei gadw. Rhaid cael hyfforddiant diweddarau bob dwy flynedd o leiaf.
- Sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr newydd yn cael hyfforddiant fel rhan o broses ymgynefino ehangach ar gyfer gweithdrefnau diogelu yn Coleg, a'u bod yn gallu cyrchu'r ddogfen bolisi hon.
- Sicrhau bod mecanweithiau'n bodoli i sicrhau bod y defnydd o staff dros dro a staff asiantaeth yn cydymffurfio â chyfrifoldebau a gweithdrefnau diogelu'r Coleg.

### Rheolwr Lles a Diogelu Dynodedig

- Sicrhau bod ymgeiswyr sydd â cholffarn droseddol datguddiedig yn cael eu hasesu'n briodol ac yn drylwyr trwy ymchwilio datgeliadau ac asesu risgiau i'w hunain ac i eraill yn seiliedig ar eu cais i astudio.
- Cysylltu â chyflogwyr a sefydliadau hyfforddi sy'n derbyn myfyrwyr o'r Coleg ar leoliadau tymor byr neu hir (prentisiaid, hyfforddeion, interniaid a lleoliadau gwaith) i sicrhau bod y gweithdrefnau diogelu priodol yn weithredol.
- Sicrhau amgylchedd ar-lein diogel trwy hidlo a monitro gweithgarwch gan ddefnyddio meddalwedd priodol ac ymchwilio i unrhyw logiau sy'n adrodd ar ddiwyddiadau ar-lein.
- Sicrhau bod pob pryder diogelu yn cael ei gofnodi'n gywir ac yn ddiogel yn unol â rheoliadau diogelu data.
- Cysylltu â'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg) fel bo'n briodol.

### Swyddogion Lles y Myfyrwyr

Aelodau dynodedig o'r tîm diogelu yw Swyddogion Lles y Myfyrwyr, ac maent yn gyfrifol am:

- Ddarparu cyswllt rheng flaen ar gyfer adrodd pryderon diogelu.
- Rhoi cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i staff a myfyrwyr.
- Cyfeirio amheuron o gam-drin, honiadau o gam-drin neu achosion o niwed i'r asiantaethau perthnasol.
- Cadw cofnodion cywir o unrhyw atgyfeiriadau, cwynion neu bryderon diogelu (hyd yn oed pan na fydd y pryderon hynny'n arwain at atgyfeiriadau) yn unol â rheoliadau diogelu data.
- Ymdrin ag achosion unigol, gan gynnwys mynychu cynadleddau achos a chyfarfodydd adolygu fel y bo'n briodol.
- Rhoi gwybod i'r Rheolwr Lles a Diogelu a'r UDD am bob amheuaeth o gam-drin, honiad o gam-drin, ac achos o niwed.

### Y Rheolwr Cofrestredig – Tŷ Weston

Mae'r Rheolwr Cofrestredig dynodedig ar gyfer Tŷ Weston, darpariaeth breswyl arbenigol y Coleg, yn gyfrifol am ddiogelu myfyrwyr preswyl ac am sicrhau bod y prosesau adrodd yn bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi gwybod i Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth ar unwaith.

### **Unigolyn â Chyfrifoldeb – Meithrinfa Ddydd a Chynllun Chwarae Coleg Penybont**

Mae'r Unigolyn â Chyfrifoldeb dynodedig ar gyfer Meithrinfa Ddydd a Chynllun Chwarae Coleg Penybont yn gyfrifol am ddiogelu plant sy'n mynychu'r feithrinfa a'r cynllun chwarae, ac am sicrhau bod y prosesau adrodd yn bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd gan y lleoliad ei bolisi ei hun ar gyfer diogelu plant, yn unol â gofynion ei gofrestrriad.

Rhaid i'r Rheolwr Cofrestredig roi gwybod i Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth ar unwaith.

### **Pob Aelod Staff**

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb dros gysylltu ag aelod o'r Tîm Lles os oes pryder ganddynt ynglŷn â myfyriwr sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei radicaiddio.

Mae dyletswydd ar bob aelod staff i sicrhau ei fod yn cymryd rhan mewn ac yn cwblhau hyfforddiant a diweddariadau diogelu rheolaidd. Rhaid i hyn ddigwydd bob dwy flynedd o leiaf.

Rhaid i bob aelod staff fod yn ymwybodol o'i rolau a'i gyfrifoldebau o ran atal eithafiaeth dreisgar a di-drais.

## **4. Recriwtio a Dethol yn Fwy Diogel**

Bydd Coleg Penybont yn sicrhau bod yr holl fesurau priodol yn cael eu gweithredu ar gyfer pawb sy'n gweithio yn y Coleg sy'n debygol o gael eu hystyried gan y myfyrwyr fel oedolyn diogel a dibynadwy, gan gynnwys gwirfoddolwyr a staff a gyflogir gan gcontractwyr.

Bydd y Coleg yn ymrwmo i sicrhau bod o leiaf un aelod o'r panel cyfweld wedi derbyn hyfforddiant 'Recriwtio Mwy Diogel'.

Mae'r arfer recriwtio mwy diogel a fabwysiadwyd gan y Coleg yn cynnwys craffu ar ymgeiswyr; gwirio hunaniaeth a chymwysterau academiaidd a galwedigaethol; sicrhau tystlythyrau proffesiynol; gwirio hanes cyflogaeth flaenorol; a sicrhau bod gan ymgeiswyr y gallu corfforol ac iechyd i wneud y swydd. Mae hefyd yn cynnwys cynnal cyfweliadau a gwirio statws Gwasanaeth

Datgelu a Gwahardd (DBS) a chofrestriad Cyngor y Gweithlu Addysg yr ymgeisydd, ynghyd â'i statws a'i hawl i weithio ac aros yn y DU.

Ar gyfer staff cyflenwi, bydd y Coleg yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig bod yr asiantaeth gyflogi sy'n darparu'r gweithiwr cyflenwi wedi cynnal y gwiriadau perthnasol, wedi cael y tystysgrifau priodol, a oes unrhyw dystysgrif wirio DBS uwch wedi'i darparu mewn perthynas â'r gweithiwr cyflenwi, a'r dyddiad a gafodd y cadarnhad ei dderbyn.

Ni fydd gwirfoddolwr, nas derbyniwyd unrhyw wiriadau amdano, o dan unrhyw amgylchiadau yn cael ei adael heb oruchwyliaeth na'i ganiatáu i weithio mewn gweithgaredd rheoledig gyda pherson dan 18 oed.

Pan gaiff gwasanaethau fel cludiant myfyrwyr eu caffael, bydd gofynion contractio yn amlinellu gofyniad y Coleg bod unrhyw oedolyn mewn cysylltiad uniongyrchol â myfyrwyr Coleg Penybont yn meddu ar wiriad DBS uwch dilys.

## 5. Perthnasau a Ffiniau Proffesiynol

Mae Coleg Penybont yn cydnabod y bydd perthnasau proffesiynol cadarnhaol gyda myfyrwyr yn arwain at y canlyniadau gorau. Mae ffiniau proffesiynol priodol yn diogelu myfyrwyr ac yn diogelu staff rhag honiadau di-sail. Mae'n brif ddyletswydd ar y Coleg i ddarparu amgylchedd dysgu saff a diogel ac i amddiffyn lles ei fyfyrwyr a'i staff.

Mae'n hanfodol bod staff yn ystyried eu hymddygiad o ran cyfathrebu gyda myfyrwyr, mewn modd wyneb yn wyneb ac yn electronig.

### 5.1 Cyfryngau Cymdeithasol

Nid yw'r Coleg yn cymeradwyo cysylltu â myfyrwyr trwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol, gan gynnwys derbyn ceisiadau i fod yn gyfaill/dilyn/cysylltu ar blatfformau o'r fath.

Lle defnyddir manau ar-lein neu gyfrifon sy'n gysylltiedig â chwricwlwm neu gwrs i gyfathrebu â dysgwyr, dylid cydymffurfio â Pholisi Defnydd Derbyniol a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol y Coleg.

### 5.2 Gweithio, Dysgu ac Addysgu o Bell / Ar-lein

Mae yna nifer o bethau y dylai staff a dysgwyr eu hystyried wrth weithio ac addysgu o bell neu ar-lein.



Mae cymorth ac ystyriaethau manwl i'w gweld yn atodiad 7. Cyfeirier hefyd at adran 8.

### 5.3 Ymweliadau Cartref

Dylid ymdrechu i gynnal cyfarfodydd yn y Coleg. Lle na ellir cyflawni hyn, disgwylir y bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau ac y bydd dau aelod staff o'r Coleg yn bresennol ar gyfer yr ymweliad.

### 5.4 Cludo Myfyrwyr

Lle bynnag y bo modd, dylid defnyddio cludiant y Coleg (bysiau mini neu geir) i gludo myfyrwyr. Ni ddylai unrhyw aelod staff gludo dysgwr heb y lefelau yswiriant priodol. Dylai staff sicrhau bod y gofynion treth a MOT perthnasol yn gyfredol, a bod y cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio yn addas ar gyfer y ffordd fawr, ac nid oes mwy o bobl yn cael eu cludo na'r uchafswm a ddeil y cerbyd. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod pob teithiwr yn gwisgo gwregys diogelwch, a chyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau eu bod yn gwneud hynny.

Ni ddylai staff gludo myfyrwyr ar eu pennau eu hunain. Mewn sefyllfa lle nad oes ail aelod staff ar gael, dylid defnyddio tacsï a chodi tâl ar gyfrif y Coleg. Yn ddelfrydol dylai aelod staff gwrywaidd a benywaidd fod yn bresennol wrth gludo myfyriwr.

### 5.5 Ffotograffiaeth a Fideo

Lle mae ffotograffiaeth neu fideo yn cael eu defnyddio ar gyfer tystiolaeth cymwysterau neu ddibenion marchnata, rhaid i bawb sydd yn y llun/fideo roi caniatâd i'r delweddau a'r ffilm gael eu defnyddio. Rhaid i staff gofio y bydd rhai myfyrwyr yn cael eu hamddiffyn o dan Hysbysiad Gwarchod y Cyhoedd (PPN), a gall rhai ohonynt fod yn blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliad mewn awdurdod lleol gwahanol i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn. Gallai defnyddio ffilm a delweddau fynd yn groes i fyfyrwyr sydd mewn sefyllfa o'r fath, a'u rhoi mewn perygl o gael niwed.

## 6. Cyfrinachedd

Nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd yn absoliwt, a gellir ei dorri os yw hyn er lles y myfyrwyr ac er budd y cyhoedd ehangach. Os yw gweithwyr proffesiynol yn barnu bod datgelu yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn y person ifanc neu eraill rhag perygl niwed difrifol, gellir torri cyfrinachedd.

Rhaid i staff beidio â datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â myfyrwyr, eu lles, neu wybodaeth bersonol heb ganiatâd pendant i wneud hynny gan yr Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) neu'r Rheolwr Diogelu a Lles dynodedig. Mae'r amod hwn yn cynnwys sefyllfaoedd lle gall aelod staff

dderbyn cais am wybodaeth gan riant, gwarchodwr, neu'r heddlu. Mae'n ofynnol i'r heddlu ddarparu Ffurflen Gais Data Personol i'r Coleg, wedi'i llenwi gan Dditectif Arolygydd.

Er bod gan y coleg ddyletswydd i gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), byddwn yn gweithredu'n unol â dulliau cyfreithlon o rannu gwybodaeth at ddibenion diogelu a diogelu myfyrwyr sydd mewn perygl o niwed. [Mae mwyr o wybodaeth am sut y byddwn yn gwneud hyn ar gael yma.](#)

## 7. Plant sy'n Colli Addysg

Yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer helpu atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, bydd y Coleg yn ymdrechu i sicrhau bod y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol yn cael ei hysbysebu lle godir pryderon am ddiffyg presenoldeb myfyriwr y credir ei fod mewn perygl, neu lle godir pryderon sy'n ymwneud â diffyg presenoldeb.

## 8. Diogelwch Ar-lein ac e-Ddiogelwch

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i fonitro defnydd y systemau TG, Wi-Fi, a dyfeisiau eraill sy'n eiddo i'r Coleg. Mae'r Coleg yn defnyddio lefelau wal dân priodol i leihau'r perygl y bydd myfyrwyr yn cyrchu cynnwys y'u hystyrir yn amhriodol. Mae'r Coleg hefyd yn defnyddio meddalwedd monitro sy'n gallu canfod trawiadau bysellau yn seiliedig ar lyfrgelloedd geirfa fygythiol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae monitro o'r fath yn galluogi hysbysu'r rheini sy'n gyfrifol am ddiogelu yn y Coleg yn uniongyrchol am ddigwyddiadau, gan ddarparu gwybodaeth allweddol am natur y digwyddiad, rhif yr ased, a'r defnyddiwr. Defnyddir monitro er mwyn sicrhau diogelwch pob myfyriwr ac i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â meithrin perthnasau amhriodol ar-lein, camfanteisio rhywiol, masnachu pobl, radicaleiddio, eithafiaeth, a gweithgareddau anghyfreithlon eraill.

Os yw bwlio cymar-i-gymar yn digwydd, dylid annog dysgwyr i ddefnyddio gwasanaethau diogelwch ac adrodd yn yr apiau ac ar y llwyfannau ar-lein. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys adrodd i ddarparwr y llwyfan a blocio defnyddwyr.

Os yw bwlio neu aflonyddu cymar-i-gymar yn digwydd rhwng dysgwyr Coleg Penybont, gellir rhannu pryderon â Thîm Lles y Coleg i gael cymorth pellach, cyngor ac ymyriad.

## 9. Dysgu Seiliedig ar Waith a Phrofiad Gwaith

9.1 Gweithredir darpariaeth prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith y Coleg o dan gytundeb consortiwm gyda [B-WBL](#), a arweinir gan Goleg Sir Benfro. Mae'r Coleg yn gyfrifol am

gwblhau unrhyw archwiliad sy'n gysylltiedig â diogelu ac am fynychu cyfarfodydd perthnasol fel yr amlinellwyd gan y consortiwm.

- 9.2 Pan godir pryder diogelu sy'n ymwneud â phrentis y mae ei raglen yn cael ei darparu gan gontractwr trydydd parti, a drefnir gan Goleg Penybont, disgwylir y bydd ein polisi ein hunain yn cael ei weithredu.
- 9.3 Bydd unrhyw fyfyrwr sy'n ymgymryd â chyflogaeth neu leoliad gwaith mewn lleoliad addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol yn ddarostyngedig i bolisi a gweithdrefn diogelu'r cyflogwr hwnnw. Nid yw hyn yn golygu na fydd ein polisi ein hunain hefyd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau diogelwch a lles myfyrwr.
- 9.4 Cyfrifoldeb y Coleg, nid y cyflogwr, fydd arwain unrhyw gamau gweithredu, ymchwiliadau neu gymorth sy'n gysylltiedig â diogelu prentis neu fyfyrwr sy'n ymgymryd â lleoliad gwaith.
- 9.4 Mae'r Coleg yn cydnabod ei ddyletswydd o ran fetio a sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth ddod o hyd i gyflogwyr a'u cymeradwyo at ddibenion gweithgarwch lleoliad gwaith. Mae'r Coleg yn gyfrifol am unrhyw asesiad risg, gwirio yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y cyflogwr a monitro'r lleoliad gwaith.

## 10. Radicaleiddio ac Eithafiaeth

Mae'r Coleg yn ceisio diogelu ei fyfyrwyr yn erbyn negeseuon eithafiaeth dreisgar, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag ideoleg Islamaidd, mudiadau'r dde eithafol a mudiadau hawliau anifeiliaid eithafol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Mae Prevent yn digwydd cyn i unrhyw weithgarwch troseddol ddigwydd trwy gydnabod, cefnogi a diogelu pobl a allai fod yn agored i gael eu radicaleiddio.

Cyflawnir hyn trwy:

- Ymgorffori "Gwerthoedd Prydeinig" yn y cwricwlwm.
- Adeiladu dealltwriaeth staff a myfyrwyr o'r problemau, a'u hyder i ddelio â nhw trwy ddatblygu staff, tiwtorialau arbenigol, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.
- Dwysáu ymgysylltiad â chymunedau lleol a grwpiau fydd.
- Gweithio'n galed gyda Grŵp Prevent Pen-y-bont ar Ogwr sydd â chynrychiolwyr o'r Heddlu, yr Awdurdodau Lleol, a'r gwasanaethau Iechyd, Addysg, Prawf a Thân ac Achub.

Bydd y Coleg yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel y'i hamlinellwyd yn y [canllawiau'r ddyletswydd 'Prevent' ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a Lloegr](#).

### 11. Adrodd ac Ymchwiliadau

Rhaid i staff rannu pryderon sydd ganddynt am ddysgwyr â'r Tîm Lles Myfyrwyr neu'r UDD. Os oes angen uwchgyfeirio'r pryder, rhennir hyn â'r gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu mewn adroddiad.

Rhaid i'r wybodaeth:

- fod yn fanwl, yn gryno ac yn eglur.
- aros yn gyfrinachol a pheidio â chael ei rhannu heb law am at ddibenion sicrhau diogelwch a lles yn unig.
- cael ei rhannu o fewn 24 awr.

Rhaid i'r Coleg roi gwybod i'r awdurdod lleol os oes rheswm rhesymol i gredu fod person ifanc mewn perygl (fel y diffiniwyd yn adran 130 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

Rhaid i'r Coleg beidio â chynnal ei ymchwiliadau ei hun. Os yw pryder yn cael ei godi ynghylch aelod staff, dylid adrodd hyn i'r awdurdod lleol neu i'r heddlu, yn unol â chanllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (2020). Bydd y Coleg yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer [ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill](#).

### 12. Honiadau neu Bryderon am Staff

Pan fydd honiad neu bryder yn codi am aelod o staff, bydd y Coleg yn cymryd camau i ymchwilio o dan ei bolisi a'i weithdrefnau disgyblu. Pe bai honiad neu bryder yn cael ei godi fel rhan o ymchwiliad gan yr heddlu, bydd y Coleg fel rheol yn aros i ymchwiliad yr heddlu ddod i ben cyn cwblhau ei ymchwiliad ei hun (gan gynnwys gwrandawriad panel, lle bo'n berthnasol).

Mewn achosion lle mae honiad neu bryder yn arwain at gynnull cyfarfod strategaeth proffesiynol, lle mae cyfarfod o'r fath yn cadarnhau honiad neu bryder gan dystiolaeth neu brawf, bydd y Coleg yn bwrw ymlaen â'i bolisi a'i weithdrefnau disgyblu ei hun, gan ddefnyddio unrhyw dystiolaeth o'r fath i ystyried a yw rôl yr unigolyn wedi'i chyfaddawdu ac a yw'r unigolyn yn gallu parhau yn ei rôl a pharhau i gael ei gyflogi gan y Coleg.

Wrth gyrraedd canlyniad, mae gan y Coleg ddyletswydd i sicrhau bod diogelu pobl ifanc yn ganolog i unrhyw benderfyniadau, wrth ystyried a allai unigolyn barhau'n ddiogel yn ei rôl gydag asesiadau risg priodol a realistig a mesurau lliniaru ac i ba raddau y bernir bod rôl mewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Rhaid i'r Coleg hefyd ystyried atebolrwydd ehangach a risg i enw da.

Bydd y Coleg yn ymgynghori â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) am gyngor a/neu i roi gwybod am gamau disgyblu sy'n arwain at ddiswyddo. Bydd yr heddlu hefyd yn gwneud hyn, mewn achosion sy'n arwain at erlyniad.

Bydd y coleg yn gweithredu yn unol ag [Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru](#) a chanllawiau Llywodraeth Cymru [ar ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill](#).

### 13. Dogfennau Cysylltiedig (os yn berthnasol)

Mae rhestr o ddeddfwriaeth allweddol a chanllawiau pellach i'w gweld yn atodiad 1.

### 14. Adolygiad y Ddogfen

Caiff y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig eu hadolygu'n flynyddol, a'u diweddarau yn unol â chyhoeddiad unrhyw ganllawiau neu ddeddfwriaeth statudol.

## 15. Gweithdrefn Adrodd ar gyfer Diogelu

### ADNABOD

Newid mewn ymddygiad, presenoldeb neu olwg? Wedi clywed sôn am rywbeth?



### YMATEB

Ymatebwch yn gadarnhaol i'r dysgwr - peidiwch â beirniadu, annog neu gwestiynu'r hyn sy'n cael ei ddweud wrthoch.



### ADRODD

**Myfyrwyr:** [wellbeing@bridgend.ac.uk](mailto:wellbeing@bridgend.ac.uk) neu 01656 302 302 estyniad 488

**Staff:** Rhowch wybod i Joe Baldwin

[jbaldwin@bridgend.ac.uk](mailto:jbaldwin@bridgend.ac.uk) neu 01656 302 302 estyniad 575



### COFNODI

Caiff pryderon eu hymchwilio gan arweinydd diogelu hyfforddedig gyda chyfranogiad rhyngasiantaeth os oes angen.

Cofnodir yr holl gynnydd a deilliannau ar gronfa ddata diogelu ganolog a diogel.

## **Atodiad 1: Deddfwriaeth a Chanllawiau\***

[Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2020](#)

[Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg 2017](#)

Deddf Addysg 2002 (adran 175)

[Gweithdrefnau Diogelu Cymru \(2019\)](#)

Deddf Plant 1989

Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006

Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003

Deddf Troseddau Difrifol 2015

Deddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009 (adran 55)

Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenhedloedd y Dyfodol (Cymru) 2015

[Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill \(2014\)](#)

Canllawiau ar gyfer y Ddyletswydd Prevent yng Nghymru a Lloegr (y'i hadolygwyd ym mis Gorffennaf 2015)

Canllawiau ar gyfer y Ddyletswydd Prevent mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru a Lloegr

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

Gweithdrefn Siaradwyr Gwadd a Digwyddiadau Allanol (Coleg Penybont)

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



*\*nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol*



### Atodiad 2: Rhestr o Dermau Allweddol

- Cam-drin: emosiynol Cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus, fel y ceir effaith anfuddiol ddifrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol y plentyn.
- Cam-drin: corfforol Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol i blentyn fel arall. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu warchodwr yn ffugio symptomau neu'n achosi salwch yn fwriadol ar blentyn y maent yn gofalu amdano.
- Cam-drin: rhywiol Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys:
- cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol a di-dreiddiol.
  - gweithgareddau digyswllt, megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, deunydd pornograffig, neu wyluo gweithgareddau rhywiol.
  - annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.
- ACE Profiad(au) Niweidiol yn ystod Plentyndod – profiadau llawn straen sy'n digwydd yn ystod plentyndod ac sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol (e.e. camdriniaeth) neu'n effeithio arno drwy'r amgylchedd y mae'n byw ynddo (e.e. tyfu lan mewn tŷ gyda thrais domestig). Gall ACEau gynnwys cam-drin yn ystod plentyndod (corfforol, rhywiol neu emosiynol); esgeulustod (emosiynol neu gorfforol); chwalfa yn y teulu; bod yn dyst i drais domestig; neu bwy mewn cartref gyda phobl sy'n camddefnyddio sylweddau, pobl sy'n dioddef afiechyd meddwl, neu rywun sydd wedi'i garcharu.
- Gwerthoedd Prydeinig Gwerthoedd a nodwyd fel rhan o'r Ddyletswydd Prevent: democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, parch unigol a chyd-barch, goddefgarwch tuag at grefyddau a chredoau gwahanol.
- CAMHS Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
- Plentyn mewn angen Mae plentyn yn blentyn mewn angen os yw un o'r canlynol yn wir:
- mae'n annhebygol o gyrraedd neu gadw, neu gael cyfle i gyrraedd neu gadw, safon resymol o ran iechyd neu ddatblygiad os nad yw'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau iddo/iddi.
  - mae'n debygol y bydd amhariad sylweddol neu amhariad pellach ar ei iechyd neu ei ddatblygiad os nad yw gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu.
  - mae ef/hi yn anabl.

Amddiffyn plant	Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hybu lles. Mae hyn yn cyfeirio at weithgarwch a wneir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.
Datblygiad	Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol.
Trais Domestig	Achos neu batrwm o achosion o ymddygiad rheolaethol, cymhellol, bygythiol, diraddiol a threisgar, gan gynnwys trais rhywiol, gan bartner neu gyn-bartner gan amlaf, neu gan aelod o'r teulu neu ofalwr.
Eithafiaeth	Gwrthwynebiad, ar lafar neu'n weithredol, i Werthoedd Prydeinig sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, parch unigol a chyd-barch a goddefgarwch tuag at grefyddau a chredoau gwahanol
Niwed	Camdriniaeth neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad, gan gynnwys, er enghraifft, amhariad a ddioddefwyd o ganlyniad i weld neu glywed eraill yn cael eu cam-drin.
Iechyd	Iechyd corfforol neu feddyliol.
Ideoleg	Set o gredoau.
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd
MASH	Hyb Diogelu Aml-asiantaeth
Esgeulustod	Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ystyr esgeulustod yw "methu diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol person, sy'n debygol o amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person, neu yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn)".
Cyfarfod Strategaeth proffesiynol	Defnyddir y term yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru ac mae'n ymwneud â chyfarfod a gaiff ei gynnull a'i gadeirio gan awdurdod leol, gyda phartneriaid perthnasol yn bresennol, gan gynnwys yr heddlu ac ysgol/coleg (lle bo'n briodol).  Mae trosolwg mwy manwl o'r cyfarfod yma ar gael i'w weld yma: <a href="https://www.diogelu.cymru/chi/c5/c5.p5.html">https://www.diogelu.cymru/chi/c5/c5.p5.html</a>
PoVA	Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

Radicaleiddio	Y broses lle mae person yn dod i gefnogi terfysgaeth a ffurfiau o eithafiaeth a all arwain at derfysgaeth.
Diogelu	Amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, p'un a yw hynny rhag troseddau neu fathau eraill o gamdriniaeth, ai rhag cael eu denu i weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.
Niwed sylweddol	Mae Adran 31(10) y Ddeddf Plant 1989 yn nodi "pan fydd y cwestiwn ynghylch a yw'r niwed a ddiodefir gan blentyn yn sylweddol yn seiliedig ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, cymharir ei iechyd neu ei ddatblygiad â'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol mewn plentyn tebyg".
Terfysgaeth	Gweithred sy'n peryglu neu'n achosi trais, niwed neu aflonyddwch difrifol, ac y bwriedir iddo ddylanwadu ar y llywodraeth neu fygwth y cyhoedd, ac a wneir gyda'r bwriad o hyrwyddo agenda gwleidyddol, crefyddol neu ideolegol.
Agoredrwydd i Niwed	Ffactorau a nodweddion sy'n gysylltiedig â bod yn agored i gamdriniaeth, niwed neu radicaliaeth.
Oedolyn sy'n agored i niwed	Unigolion dros 18 oed sydd angen, neu allai fod angen, gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anableddau meddygol neu anableddau eraill, eu hoedran, salwch, neu sydd methu neu allai bod yn methu â gofalu am eu hunain, neu sydd methu amddiffyn eu hunain yn erbyn niwed sylweddol neu ecsbloetiaeth difrifol.
Llesiant	<p>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio llesiant mewn perthynas ag unrhyw un o'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"><li>iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol</li><li>amddiffyniad rhag camdriniaeth ac esgeulustod</li><li>addysg, hyfforddiant a hamdden</li><li>perthnasau domestig, teuluol a phersonol</li><li>gwneud cyfraniad i'r gymdeithas</li><li>sicrhau hawliau</li><li>llesiant cymdeithasol ac economaidd</li><li>addasrwydd llety byw</li></ol> <p>Mewn perthynas â phlentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"><li>datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol</li><li>"llesiant" fel y caiff y gair hwnnw ei ddehongli at ddibenion y Ddeddf Plant 1989.</li></ol>

### Atodiad 3: Mathau o Gam-drin

**Cam-drin Corfforol:** Gall gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol fel arall. Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu warchodwr yn ffugio symptomau neu'n achosi i blentyn fod yn sâl yn fwriadol.

**Cam-drin Emosiynol:** Gall gynnwys cyfleu i bobl ifanc eu bod yn ddiwerth, yn annigonol ac nad yw unrhyw un yn eu caru. Gall gynnwys bwlio difrifol (gan gynnwys seiberfwlio), gan achosi i bobl ifanc deimlo'n ofnus neu mewn perygl; neu ecsbloetio neu lygru plant neu oedolion sy'n agored i niwed. Mae rhywfaint o gamdriniaeth emosiynol ynghlwm â phob math o gamdriniaeth, er y gall ddigwydd ar ei phen ei hun.

**Cam-drin Rhywiol:** Mae hyn yn cynnwys gorfodi neu ddenu pobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, nad ydynt o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosodiad trwy dreiddio (er enghraifft, trais rhywiol neu ryw geneuol) neu weithgareddau di-dreiddiad megis mastyrbio, cusanu, rhwbio, a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gall hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt megis edrych ar, neu gynhyrchu, delweddau rhywiol; gwyllo gweithgareddau rhywiol; neu feithrin perthynas amhriodol gyda phlentyn neu berson sy'n agored i niwed i baratoi am gamdriniaeth. Nid yw camdriniaeth rywiol yn cael ei chyflawni gan ddynion yn unig. Gall menywod hefyd gyflawni camdriniaeth rywiol, fel y gall plant a phobl ifanc eraill.

**Esgeulustod:** Methiant parhaus i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plant neu oedolion sy'n agored i niwed, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol i'w hiechyd neu eu datblygiad. Gall esgeulustod hefyd ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau ar ran y fam. Gall esgeulustod olygu bod rhiant neu warchodwr yn methu â darparu bwyd, dillad neu loches ddigonol.

**Cam-drin Gwahaniaethol:** Yn cynnwys ymddygiad hiliol, rhywiaethol, ymddygiad sy'n seiliedig ar anabled, a mathau eraill o aflonyddu, wedi'i anelu at fyfyrwr.

**Cam-drin Ariannol neu Ddeunyddiol:** Dwyn eiddo neu harian plant neu oedolion sy'n agored i niwed, neu eu bwlio i'w gorfodi i roi eu harian neu eu heiddo.

**Cam-drin Sefydliadol/Arferion Gwael:** Gofal amhriodol, amharchus neu annigonol, sy'n effeithio ar y lleoliad cyfan, ac sy'n gwrthod neu'n cyfyngu ar urddas, dewisiadau neu foddhad pobl sy'n agored i niwed.

**Cam-drin Digyffwrdd:** Camdriniaeth nad yw'n cynnwys cyswllt corfforol gwirioneddol, e.e. ffilmiau pornograffig neu dreisgar, cyflawni gweithredoedd rhywiol o flaen y dioddefwr, cyflawni gweithredoedd treisgar gyda'r unigolyn sy'n cael ei gam-drin yn bresennol.

**Risg i'r hunan a/neu eraill:** Gall gynnwys, heb fod yn gyfyngol i: hunan-niwed, tueddiadau hunanddiniestriol, neu risg posibl o niweidio eraill, a all gynnwys plant neu beidio. Gall hyn fod o ganlyniad i unigolyn yn dioddef lefel sylweddol o drawma a/neu straen emosiynol personol. Mae'r term hunan-niwed yn ymdrin ag amrywiaeth o ymddygiadau a ddefnyddir fel dulliau ymdopi lle mae unigolion yn niweidio eu hunain trwy beri poen gorfforol neu ormodedd sylweddau er mwyn ymdopi â phoen emosiynol.

Mae dulliau hunan-niwed bwriadol cyffredin yn cynnwys:

- Torri'r croen
- Gorfwyta neu beidio bwyta digon
- Llosgi'r croen
- Mewnosod gwrthrychau i'r corff
- Taro'ch hunain neu waliau
- Gorddosio
- Llyncu sylweddau peryglus
- Ymarfer y corff yn ormodol
- Crafu a thynnu gwallt

**Cam-drin Ariannol neu Ddeunyddiol:** yn cynnwys lladrad; twyll; ecsbloetiaeth; pwysau mewn cysylltiad ag ewyllysiau, eiddo neu etifeddiaeth trafodion ariannol; neu gamddefnyddio neu gam-afeddu eiddo, meddiannau neu fudd-daliadau.

**Camfanteisio Rhywiol:** Math o gamdriniaeth rhywiol lle mae plant neu bobl ifanc yn cael eu ecsbloetio'n rhywiol am arian, pŵer neu statws. Gall gynnwys ymosodiadau rhywiol treisgar, gwaradwyddus a diraddiol. Ni all bobl ifanc (dan 18 oed) rhoi caniatâd, hyd yn oed os ydynt yn credu eu bod yn cymryd rhan yn wirfoddol mewn gweithgareddau rhywiol gyda'r person sy'n eu hecsbloetio. Nid yw camfanteisio rhywiol bob amser yn golygu cyswllt corfforol, a gall ddigwydd ar-lein.

**Secstio:** Yn gyffredinol, mae secstio yn cyfeirio at anfon delweddau rhywiol drwy negeseuon testun, e-byst, negeseuon chwim (e.e. Google Hangouts, WhatsApp neu Facebook Messenger), neu drwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol. Mae pobl ifanc (dan 18 oed) sy'n tecstio lluniau rhywiol o'u hunain trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cyflawni trosedd (dosbarthu pornograffi plant) a gallant fod yn atebol i'r heddlu, hyd yn oed os yw eu gweithredoedd yn gwbl wirfoddol.

**Priodas dan Orfod:** Mae gorfodi rhywun i briodi yn drosedd yng Nghymru a Lloegr. Mae priodas dan orfod yn un a gofrestrir heb gydsyniad llawn a rhydd y ddau berson, a lle mae trais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth yn cael ei ddefnyddio i achosi person i briodi.

**Trais ar sail Anrhydedd:** Mae trais ar sail anrhydedd yn cwmpasu troseddau sydd wedi'u cyflawni i ddiogelu neu amddiffyn anrhydedd teulu a/neu gymuned, gan gynnwys anffurfio organau rhywiol merched, priodasau dan orfod, ac arferion megis smwddio'r fron. Mae pob math o drais ar sail anrhydedd yn gamdriniaeth a dylid eu trin felly.

**Anffurfio Organau Rhywiol Benywod (FGM):** Mae yna ddyletswydd adrodd orfodol ar gyfer anffurfio organau rhywiol benywod, ac mae'n cynnwys yr holl weithdrefnau sy'n ymwneud â chael gwared ag organau rhywiol allanol benywod yn llawn neu'n rhannol, neu anafiadau eraill i'r organau rhywiol benywaidd. Mae'n anghyfreithlon yn y DU, ac yn fath o gam-drin plant. Mae Adran 5B Deddf Anffurfio Organau Rhywiol Benywod 2003 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 74 Deddf Troseddau Difrifol 2015) yn rhoi dyletswydd ar athrawon/tiwtoriaid i adrodd i'r heddlu os ydynt yn darganfod ei bod yn ymddangos bod FGM wedi'i gyflawni ar blentyn dan 18 oed.

**Llinellau Cyffuriau:** term i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddu cyfundrefnol sy'n ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd sy'n mewnforio (o fewn y DU), gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol neu fath arall o "linell masnachu". Maent yn debygol o ecsbloetio plant ac oedolion sy'n agored i niwed i symud (a storio) y cyffuriau ac arian, ac yn aml byddant yn defnyddio gorfodaeth, bygythion a thrais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.

**Cam-drin cymar ar gymar (ymddygiad rhywiol niweidiol):** ymddygiad rhywiol datblygiadol amhriodol gan blant a phobl ifanc ac sy'n niweidiol neu gamdriniol. Gallwch ddarllen mwy am y continwmm o ymddygiadau rhywiol priodol a niweidiol yn [llyfrgell ddysgu'r NSPCC](#).

## Atodiad 4: Strwythur Tîm Diogelu'r Coleg a Chysylltiadau

Mae sawl ffordd i chi rhoi gwybod am bryderon diogelu:

1. E-bostio [wellbeing@bridgend.ac.uk](mailto:wellbeing@bridgend.ac.uk)

Mae pob aelod o'r Tîm Lles yn gallu cael mynediad i'r blwch derbyn hwn, ac mae'n cael ei fonitro o Ddydd Llun i Ddydd Iau rhwng 8:30-17:00 ac ar Ddydd Gwener rhwng 8:30-16:30 drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfnodau gwyliau ond yn eithrio gwyliau banc a'r cyfnod cau dros Nadolig.

2. Ffonio 01656 302 302 estyniad 488
3. Cwblhau ffurflen ddatgelu sydd ar gael ar borth y staff.
4. Wyneb yn wyneb. Gallwch adnabod pobl sydd wedi'u hyfforddi i ddelio â phryderon diogelu yn hawdd gan eu bod yn gwisgo cortynnau 'Tîm Lles' porffor.

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy





## Atodiad 5: Sicrhau Ymwybyddiaeth

Mae nifer o fesurau yn bodoli i sicrhau bod staff, myfyrwyr, ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o'n dyletswyddau a'n disgwyliadau o ran diogelu a Prevent.

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- Mae'r Tîm Lles sy'n gyfrifol am ddiogelu yn hawdd i'w hadnabod oherwydd eu cortynnau 'Tîm Lles' porffor.
- Mae pob ymwelydd a chontractwr yn cofrestru wrth y dderbynfa ac yn cael bathodyn adnabod ffotograffig personol i'w wisgo tra'u bod ar safle'r Coleg.
- Mae pob ymwelydd a chontractwr yn cael llyfryn cyngor diogelu dwyieithog ar ôl mewngofnodi.
- Cyhoeddir negeseuon adrodd allweddol ar sgriniau electronig ar draws campysau'r Coleg.
- Modiwl hyfforddi ar-lein ynghylch diogelu i'r staff cyfan.
- Pwyblym 'Rhowch Wybod am Bryder' ar borth y staff.



### Atodiad 6: Manylion Cyswllt Brys – Gwasanaethau Cymdeithasol

Ni ddylech ond adrodd am bryder diogelu os na allwch siarad â Thîm Lles, Rheolwr Diogelu a Lles Dynodedig neu Uwch Berson Dynodedig y Coleg. Gallwch hefyd ofyn am gyngor gan ddefnyddio rhif di-argyfwng yr heddlu, 101.

Os ydych yn gwneud atgyfeiriad yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, bydd rhaid i chi gysylltu âg adran briodol Cyngor yr ardal y mae'r unigolyn yn byw ynddi.

**Mewn argyfwng, deialwch (9)999 os ydych chi'n defnyddio ffôn Coleg, neu 999 fel arall.**

Uned Diogelu'r Cyhoedd Heddlu Pen-y-bont ar Ogwr  
Gorsaf Heddlu Llangrallo  
Pen-y-bont ar Ogwr  
01656 651 660

Gwasanaethau Plant	Amddiffyn Oedolion
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</b> Gwasanaethau Plant Tîm Derbyn ac Asesu: 01656 642320 (24 awr)	<b>Bridgend County Borough Council</b> Tîm Asesu Cydlynnydd Amddiffyn Oedolion Ffôn: 01656 642479
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</b> Bwrdd Diogelu Plant Tîm Cyswllt ac Atgyfeirio: 0808 100 1727 Tîm Dyletswydd Brys De Ddwyrain Cymru Ar Ôl Oriau Gwaith Ffôn: 0808 328 4432	<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili</b> Gwasanaethau Oedolion Ffôn: 0808 100 2500 neu 01443 873635 (Rheolwr) Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith Ffôn: 0808 328 4432
<b>Cyngor Caerdydd</b> Tîm Gwasanaethau Plant: 02920 536 400 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 02920 448 360	<b>Cyngor Caerdydd</b> Tîm Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed: 02920 536436 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 02920 788 570
<b>Cyngor Abertawe</b> Tîm Mynediad ac Asesu Cychwynnol: 01792 635700 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01792 775 501	<b>Cyngor Abertawe</b> Tîm Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed: 01792 636 854 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01792 775 501
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</b> Tîm Derbyn ac Asesu Swyddog Dyletswydd: 01685 724 525 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01443 849944	<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</b> Tîm Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed Ffôn: 01685 724 507 / 725000 / 724594 (Rheolwr) Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01443 849944
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot</b> Tîm Derbyn ac Asesu Swyddog Dyletswydd: 01639 685717 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01639 895 455	<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot</b> Tîm Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed Ffôn: 01639 763 009 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01639 895 455
<b>Cyngor Dinas Casnewydd</b> Canolfan Gyswllt: 01633 656 656 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 0800 328 4432	<b>Cyngor Dinas Casnewydd</b> Canolfan Gyswllt: 01633 656 656 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 0800 328 4432
<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</b> Tîm Dyletswydd Gwaith Cymdeithasol: 01443 486731 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01443 849 944	<b>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</b> Cydlynnydd Amddiffyn Oedolion: 01443 427755 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 01443 849 944
<b>Bro Morgannwg</b>	<b>Bro Morgannwg</b>

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



Tîm Derbyn ac Aseu: 01446 725206 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 02920 448 360	Cydlynnydd Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed: 01446 704 740 Tîm Dyletswydd Brys Ar Ôl Oriau Gwaith: 02920 448 360
---	---

### Atodiad 7: Gweithio, Dysgu ac Addysgu o Bell / Ar-lein

Gwyddom fod cysylltedd ar-lein ac o bell yn hanfodol er mwyn bod yn sefydliad ymatebol ac ystwyth. Mae gennym gyfrifoldeb dros sicrhau bod pob aelod staff a dysgwr yn gallu cyrchu a defnyddio cyfleoedd ar-lein yn ddiogel.

Bwriad y paramedrau a'r canllawiau a amlinellir yw sicrhau bod pawb yn gallu manteisio ar offer digidol a chyfleusterau ar-lein, er mwyn gwella gweithio, ymgysylltiad a chysylltedd.

### Galwadau a Chynadleddau Fideo Byw

- Sicrhewch fod eich man gweithio yn glir ac wedi'i oleuo'n dda, a gwiriwch eich cwmpasoedd / cefndir
- Sicrhewch eich bod yn gwisgo dillad priodol
- Sicrhewch fod pobl eraill yn eich lleoliad neu'ch cartref yn ymwybodol eich bod ar fideo
- Peidiwch â recordio neu dynnu llun o sesiwn heb ymwybyddiaeth a chaniatâd pawb sy'n rhan o'r sesiwn neu'r alwad
- Peidiwch â rhannu unrhyw recordiau, lluniau neu sgrinluniau heb ganiatâd pawb sy'n cymryd rhan. Bydd methu â gwneud hyn yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phreifatrwydd â chydysyniad personol
- Ystyriwch a fyddai'r opsiwn 'sain yn unig' yn bodloni gofynion y cyfathrebiad, ac os felly, gall cyfranogwyr anablu'r swyddogaeth fideo.

Os oes pryder gennych ynghylch unrhyw weithred neu ddigwyddiad yn ystod galwad, dylech ei derfynu ac adrodd y ffeithiau i aelod o'r tîm diogelu ar unwaith (tudalen 16 o bolisi Diogelu Coleg Penybont).

### Platfformau Ar-lein

Ni ddylai staff ond gyfathrebu â dysgwyr dros lwyfannau y'u cymeradwywyd gan y Coleg, ac at ddibenion swyddogol y Coleg yn unig.

Rhaid i staff beidio â defnyddio cyfrifon personol i gysylltu neu chyfathrebu â dysgwyr (gweler adran 5 ym mholisi Diogelu Coleg Penybont).

Ni ddylid defnyddio llwyfannau sy'n cynnwys (er nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr) WhatsApp, FaceTime, Houseparty, Facebook a Facebook Messenger i gyfathrebu neu gysylltu â dysgwr.

Pam?

- Cynnal ffiniau proffesiynol a lleihau unrhyw berygl anfwriadol

- Ni chaiff llwyfannau eraill eu monitro gan feddalwedd diogelwch ar-lein y Coleg. Mae amgylchedd G Suite y Coleg yn cael ei fonitro, a hefyd yn defnyddio Google Vault i gadw copi wrth gefn o'r hanes
- Ni ellir rheoli telerau defnyddwyr sy'n gysylltiedig â hawliau a defnydd data fel trwyddedau personol a menter/busnes, ac mae telerau neu ddefnydd yn wahanol
- Nid yw llwyfannau am ddim megis YouTube a Facebook Live yn galluogi defnyddwyr i gyfyngu cynulleidfaeodd.

### Cyfarfodydd Staff / Dysgwyr Ar-lein

Dylid osgoi cyfarfodydd 1:1 ar-lein rhwng aelod staff a dysgwr. Os yw amgylchiadau'n golygu y byddai hyn yn heriol (e.e. asesiad), dylai ail aelod staff fod yn bresennol ar yr alwad, neu yn ddelfrydol, dylid recordio'r cyfarfod trwy ddefnyddio'r opsiwn ar Google Meet. Dylid gofyn am ganiatâd y dysgwr cyn recordio.

Ystyriwch a oes angen defnyddio fideo ar gyfer y cyfathrebiad – a fyddai'r opsiwn 'sain yn unig' yn bodloni gofynion y cyfathrebiad?

### Cysylltu â Dysgwyr yn y Cartref / o Bell

Gellir cysylltu â dysgwyr trwy ddefnyddio'r dulliau canlynol, ac ni ddylai staff ond ddefnyddio ei gyfrif Coleg Penybont;

- Google Hangouts / Google Meet
- Google Classroom
- E-bost (o gyfrif *bridgend.ac.uk*)
- SMS trwy MiHub
- Swyddogaethau eLLP a sylwadau trwy MiHub
- Dros y ffôn, dim ond trwy'r feddalwedd ShoreTel tra'n fewngofnodedig o bell, neu o ffôn symudol y Coleg.

### Bwlio ac Aflonyddu Ar-lein

Gweler adran 8 ym mholisi Diogelu Coleg Penybont.

### Canllawiau ac Adnoddau Defnyddiol

[NSPCC: Undertaking remote working safely](#)

[NSPCC: eSafety \(including livestreaming and social media\)](#)

[NSPCC: Internet Connected Devices \(e.g Google Home or Amazon Alexa\)](#)

## Asesiad Effaith Iaith Gymraeg

Enw'r Polisi / Gweithdrefn	Diogelu Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n Agored i Niwed					
Perchennog y Polisi	Joe Baldwin					
Nod(au) a Phwrpas y Polisi	Diogelu Pobl Ifanc ac Oedolion sy'n Agored i Niwed					
Ar bwy y mae'r polisi hwn yn effeithio?	Dysgwyr	✓	Staff	✓	Y Cyhoedd	✓

## Safonau'r Gymraeg

Rhif/ No.	Math/ Type	Safon / Standard	Cadarn haol (gallai fod o fudd) Positive (could benefit)	Negyddo I (gallai effeithio) Negative (could impact)	Dim Effaith No Impact
94	Safonau Llunio Polisi Policy Making standards	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider what effects, if any (whether positive or adverse), the policy decision would have on — (a) opportunities for persons to use the Welsh language, and (b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>	✓		

## Cynllun Gweithredu / Action Plan

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



Dylai camau gweithredu ddangos camau i'w cymryd i leihau neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg.

Actions should demonstrate steps to be taken to reduce or where possible, eliminate any negative impact on the Welsh Language.

<b>Gweithredu/ Action</b>	<b>Pwy/ Who</b>	<b>Erbyn Pryd/ By When</b>	<b>Mesur Llwyddiant/ <i>(sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni'r camau gweithredu)</i></b>  <b>Success Measure <i>(how will we know we have achieved the action)</i></b>

**Dyddiad Cwblhau Aseu / Assessment Completion Date:** 18.02.22